## ATODIAD A:
## SYLWADAU'R AELOD LLEOL AR GYFER ADRODDIAD CABINET 28 MAWRTH 2023

Diolch am y cyfle i gynnig sylwadau fel aelod lleol ar y bwriad i gau Ysgol Felinwnda o 31 Awst 2023.

Wrth lunio barn ar y mater, ystyriais farn y gymuned leol, llywodraethwyr, ac eraill sy'n ymwneud â'r ysgol.

Mae Ysgol Felinwnda wedi bod yn gwasanaethu'n gaboledig cymunedau gwledig Saron a Dinas ers 1895. Mae'n ysgol sydd wedi bod yn darparu addysg lwyddiannus ers cenhedlaethau, ac mae'r staff a llywodraethwyr wedi llwyddo i sicrhau amgylchedd ddysgu lle y mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn ffynnu.

Dyfarnodd Estyn fod yr ysgol yn darparu addysg dda yn eu dau arolygiad diwethaf.

Does dim gwadu mai Ysgol Felinwnda yw'r ysgol leiaf yng Ngwynedd, bod nifer y disgyblion wedi disgyn i 8 erbyn Ionawr 2023, a bod rhagamcanion y dyfodol yn fregus. Medraf felly ddeall bod Cyngor Gwynedd am ystyried dyfodol yr ysgol, Mae hyn yn rhesymol.

Serch hynny, nid wyf o'r farn fod y broses statudol yr argymhellir fod y Cabinet yn ei ddilyn, sef i gyhoeddi Rhybudd Statudol ar Fawrth 28, er mwyn cau'r ysgol o 31 Awst 2023, yn broses fydd yn sicrhau cyfiawnder a thegwch i ddisgyblion, rhieni na chymuned yr ysgol. Ni rydd hyn unrhyw gyfle i randdeiliaid fod yn rhan o unrhyw drafodaeth na chynnig mewnbwn am ddyfodol yr ysgol.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, Llywodraeth Cymru, yn nodi y gellir dilyn proses statudol sy'n hepgor ymgynghoriad cyhoeddus, pan fo llai na 10 disgybl. Fodd bynnag, nid dyma'r drefn a ddilynwyd gan Gyngor Gwynedd, pan ystyriwyd a phenderfynwyd cau ysgolion Llanaelhaearn ac Abersoch. Roedd yr ysgolion yma mewn sefyllfa debyg iawn o ran niferoedd disgyblion.

Yn ychwanegol, cafodd ysgolion Llanaelhaearn ac Abersoch, drafodaethau cychwynnol efo Cyngor Gwynedd er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Sefydlwyd hefyd banel adolygu ysgol oedd yn trafod dyfodol yr ysgolion, a bu trafodaethau am flwyddyn cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Rhoddodd hyn gyfle i'r rhanddeiliaid gyfrannu at opsiynau posibl i ddatrys y prif heriau. Diwedd y broses yw cyhoeddi Rhybudd Statudol. Pam na chaiff Ysgol Felinwnda yr un cyfleoedd a gafodd yr ysgolion yma?

Gofynnaf felly i'r Cabinet ohirio'r penderfyniad i gyhoeddi rhybudd statudol, ac yn hytrach cynnal trafodaethau ac ymgynghoriad cyhoeddus yn gyntaf, cyn dod i benderfyniad pellach ar y mater.

Nid yw'r broses a argymhellir yn rhoi cyfle i'r ysgol, rhieni na'r gymuned gynnig llais na chynnal trafodaeth ar ddyfodol yr ysgol, neu weithio at gynyddu niferoedd y disgyblion.

Hoffwn amlygu nad oes unrhyw drafodaethau wedi bod efo Cyngor Gwynedd ar y mater, heblaw am un cyfarfod byr o lai na hanner awr efo llywodraethwyr a staff ddechrau mis Mawrth. Cyfarfod oedd hwn i nodi bwriad Cyngor Gwynedd i gyhoeddi Rhybudd Statudol ar 28 Mawrth. Cyfarfod i nodi fait accompli yn hytrach na chyfarfod yn cynnig cyfle am drafodaeth.

Fel rhan o’r broses statudol, mae’r adroddiad Cabinet yn cynnwys asesiadau effaith ar y Gymraeg, y gymuned, ac ansawdd a safonau addysg, ond nid yw aelodau’r gymuned, rheini, staff na’r llywodraethwyr wedi cael cyfle i gynnig mewnbwn ar y rhain.

Yn yr un modd, ni chafwyd cyfle i gynnig barn ar y dewis o ysgol amgen, ac o ran y cynnig i ddynodi Ysgol Bontnewydd fel ysgol amgen, credaf fod angen ystyriaeth bellach ar hyn.

Nid oes neb yn amau llwyddiant Ysgol Bontnewydd fel sefydliad addysgol, ond mae gan Ysgol Llandwrog hefyd ragoriaethau sydd hefyd yn teilyngu ystyriaeth fel ysgol amgen. Mae’r ysgol oddeutu union yr un pellter o Ysgol Felinwnda, wedi cael dyfarniad da am safon yr addysg gan Estyn. Yn fwy perthnasol, mae yna gysylltiad cryf yn bodoli rhwng Ysgol Felinwnda ac Ysgol Llandwrog ers rhai blynyddoedd. Rhennir yr un Pennaeth, ac fe gynhelir gweithgareddau ar y cyd yn wythnosol. Mae naws a natur Ysgol Llandwrog fel ysgol wledig hefyd yn debycach i Felinwnda. Mae disgyblion Felinwnda yn adnabod athrawon Llandwrog ac yn ffrindiau efo’r plant. Byddai’n haws i ddisgyblion gymathu yn Llandwrog.

Byddai trafodaethau pellach ac ymgynghoriad cyhoeddus yn rhoi cyfle i leisio barn ehangach ar y materion yma.

Mynegaf hefyd fy mhryder ar effaith cau’r ysgol ar Ganolfan Bro Llanwnda, sydd yn adeilad mewn lleoliad gwledig y drws nesaf i’r ysgol. Yma fe gynhelir amrywiol weithgareddau cymdeithasol a’r Cylch Meithrin.

Er nad yw’r ysgol yn defnyddio’r Ganolfan yn uniongyrchol yn aml, ac y deuir i’r casgliad yn yr asesiad effaith mai effaith niwtral fyddai unrhyw gau yn ei gael ar Y Ganolfan, yn fy marn i, effaith negyddol fyddai ar Ganolfan Bro Llanwnda. Mae presenoldeb ysgol drws nesaf, ble mae rhieni a staff yn galw’n ddyddiol, yn cadw ac yn cynyddu’r ymwybyddiaeth o’r Ganolfan sydd mewn lleoliad gwledig iawn.

Yn yr un modd mae presenoldeb yr ysgol yn cynnig continwwm addysgol i blant y Cylch Meithrin.

**Casgliad**

Buaswn yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried fy sylwadau uchod.

Nid digwyddiad bychan i’w gyflawni dros ychydig wythnosau yw cau ysgol sydd wedi bod yn gwasanaethu cymuned ers 125 o flynyddoedd.

Cofier fod y penderfyniad yma i gyhoeddi Rhybudd Statudol wedi dod yn ddirybudd a heb unrhyw drafodaethau cychwynnol ac nad oes ymdrech na chyfle wedi ei roi er mwyn trafod posibilrwydd o gynyddu nifer y disgyblion.

Felly, er mwyn cyfiawnder naturiol, ac egwyddorion Ffordd Gwynedd, gofynnaf i’r Cabinet ail ystyried cyhoeddi Rhybudd Statudol i gau Ysgol Felinwnda

Yn hytrach dylid cynnig cyfle i glywed llais yr ysgol a’r gymuned, drwy gynnal trafodaethau pellach ac ymgynghoriad cyhoeddus fel cam cyntaf y broses o asesu ac ystyried dyfodol Ysgol Felinwnda.